*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1544 (Cy.142)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Mehefin 2010* |
| *Yn dod i rym - -* | *26 Gorffennaf 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 45C(1), (2) a (3)(b), 45F(2)(a), 45G(7), 45L(4), 45M(3), (6) a (7), 45N(1) a (2)(b) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984(**1**) ac adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**2**).

Yn unol ag adran 152(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cynrychiolwyr hynny o lywodraeth leol y maent yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy mewn cysylltiad â rheoliad 7.

Cafodd drafft o'r offeryn hwn ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo yn unol ag adran 45Q(2), (3) a (4) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 ac adran 150(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Gorchmynion Rhan 2A) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 26 Gorffennaf 2010.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cais Rhan 2A" ("*Part 2A application*") yw cais a wnaed i ynad heddwch am orchymyn o dan Rhan 2A o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984;

ystyr "gorchymyn Rhan 2A" ("*Part 2A order*") yw gorchymyn a wnaed gan ynad heddwch o dan Rhan 2A o'r Ddeddf;

(**1**) 1984 p.22. *Gweler* adran 45T(6) o'r Ddeddf honno i gael diffiniad o "the appropriate Minister" ac adran 45M(11) o'r Ddeddf honno i gael diffiniad o "regulations" at ddibenion adran 45M. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F, 45G, 45M, 45N, 45P a 45T yn y Ddeddf honno gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p.14).

(**2**) 1989 p.42.

ystyr “person sydd â chyfrifoldeb rhiant” (“*a person with parental responsibility*”) yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant o fewn ystyr Deddf Plant 1989(**3**); ac

ystyr “plentyn” (“*child*”) yw person sydd o dan 18 mlwydd oed.

**Dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi hysbysiad o geisiadau Rhan 2A**

**3.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn gwneud cais Rhan 2A.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol wneud ymholiadau rhesymol o ran bodolaeth a lleoliad personau sy'n dod o fewn paragraffau (4) i (7) (fel y bo'n gymwys).

(3) Ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol yn unol â pharagraff (2), rhaid i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o'r cais i'r personau a bennir ym mharagraffau (4) i (7) (fel y bo'n gymwys) pan fo'r awdurdod lleol yn gwybod pwy ydynt a bod modd iddo gysylltu â hwy.

(4) Mewn perthynas â gwneud cais am orchymyn o dan adran 45G(2) neu (4) o'r Ddeddf (pŵer i orchymyn mesurau iechyd mewn perthynas â phersonau), y personau a bennir yw—

(a) y person sy'n destun y cais (P);

(b) person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros P, os yw P yn blentyn; ac

(c) y sawl sy'n penderfynu dros P (os oes unrhyw un).

(5) Yn ddarostyngedig i baragraff (6), ynglŷn â chais am orchymyn o dan adran 45H(2) neu (4) o'r Ddeddf (pŵer i orchymyn mesurau iechyd o ran pethau), y personau penodedig yw—

(a) perchennog y peth; a

(b) y person sydd â gwarchodaeth am y peth neu reolaeth arno.

(6) O ran cais am orchymyn o dan adran 45H(2) o'r Ddeddf ynglŷn â chorff marw neu weddillion dynol, y person penodedig yw câr agosaf yr ymadawedig (neu os oes ceraint agosaf gan yr ymadawedig, unrhyw un o'r personau hynny).

(7) O ran cais am orchymyn o dan adran 45I(2) neu (4) (pŵer i orchymyn mesurau iechyd o ran mangreoedd), y personau penodedig yw—

(a) perchennog y fangre; a

(b) meddiannydd y fangre, os oes un.

(8) Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o dan baragraff (3) os yw P, yn nhyb resymol yr awdurdod lleol, yn debygol o ddiengyd neu fel arall yn cymryd camau i danseilio'r gorchymyn y gwnaed cais amdano.

(9) Nid yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol roi hysbysiad o dan baragraff (3) i berson a bennir ym mharagraff (4)(b) os oes amgylchiadau eithriadol yn bodoli sy'n golygu na fyddai hysbysu person o'r fath er budd pennaf P.

(10) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “câr agosaf” (“*next of kin*”) yw'r person y mae'r rhestr ganlynol yn ei roi yn y rheng uchaf (ond os bydd dau berson neu fwy yn gyfartal eu rheng yna mae pob un o'r personau hynny i'w trin fel y ceraint agosaf)—

(a) person sydd â chyfrifoldeb rhiant am yr ymadawedig (P);

(b) gŵr, gwraig neu bartner sifil P;

(c) person sydd wedi bod yn byw gyda P hyd at adeg marwolaeth P yn ŵr, gwraig neu bartner sifil i P;

(ch) plentyn i P os yw'n 18 oed neu'n hŵn;

(**3**) 1989 p.41.

(d) rhiant i P;

(dd) brawd neu chwaer i P os yw'n 18 oed neu'n hŵn; ac

ystyr "y sawl sy'n penderfynu dros P" ("*P's decision-maker*") yw rhoddai atwrneiaeth barhaus neu atwrneiaeth arhosol P o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005(**4**) neu ddirprwy a benodwyd gan y Llys Gwarchod(**5**) mewn perthynas â P, pan fo penderfyniadau mewn cysylltiad â cheisiadau neu orchmynion Rhan 2A o fewn cwmpas awdurdod y person hwnnw.

## Tystiolaeth y mae ei hangen ar gyfer cais Rhan 2A o ran personau

**4.**—(1) Ni all ynad heddwch fod yn fodlon bod y meini prawf yn adran 45G(1) neu (3) o'r Ddeddf (pŵer i orchymyn mesurau iechyd o ran personau) wedi cael eu cyflawni onid yw'r dystiolaeth a restrir ym mharagraff (2) ar gael i'r ynad.

(2) Y dystiolaeth honno yw—

(a) adroddiad sy'n rhoi manylion (i'r graddau y gwyddys amdanynt ac i'r graddau y maent yn berthnasol), neu sy'n rhoi rhesymau dros adael allan fanylion am y canlynol—

(i) arwyddion a symptomau'r haint neu'r halogiad yn y person (P) sy'n destun y cais,

(ii) diagnosis P,

(iii) canlyniad profion clinigol neu brofion labordy, a

(iv) cysylltiadau diweddar P â ffynhonnell neu ffynonellau'r haint neu'r halogiad neu ei agosrwydd iddi neu iddynt;

(b) crynodeb o nodweddion ac effeithiau'r haint neu'r halogiad sydd gan neu a all fod gan P sy'n cynnwys esboniad o'r canlynol—

(i) drwy ba fecanwaith y mae'r haint neu'r halogiad yn ymledu,

(ii) pa mor hawdd y mae'r haint neu'r halogiad yn ymledu ymysg bodau dynol, a

(iii) effaith yr haint neu'r halogiad ar iechyd dynol (drwy gyfeirio at boen, anabledd a thebygolrwydd marwolaeth);

(c) o ran ceisiadau am orchymyn o dan adran 45G(2), asesiad o'r risg i iechyd dynol y mae P yn ei chyflwyno, gan gynnwys disgrifiad o unrhyw waith neu anwaith, neu unrhyw waith neu anwaith a ragwelir, gan P sy'n effeithio ar y risg honno;

(ch) o ran ceisiadau am orchymyn o dan adran 45G(4), asesiad o'r risg i iechyd dynol y mae'r parti perthnasol(**6**) yn ei chyflwyno, gan gynnwys unrhyw waith neu anwaith, neu unrhyw waith neu anwaith a ragwelir, gan y parti perthnasol sy'n effeithio ar y risg honno;

(d) o ran ceisiadau am orchymyn o dan adran 45G(2), asesiad o'r opsiynau sydd ar gael i ymdrin â'r risg honno y mae P yn ei chyflwyno; ac

(dd) o ran ceisiadau am orchymyn o dan adran 45G(4), asesiad o'r opsiynau sydd ar gael i ymdrin â'r risg honno y mae'r parti perthnasol yn ei chyflwyno.

(3) Rhaid i adroddiad o dan baragraff (2)(a) gynnwys y manylion a grybwyllir yn o leiaf un o'r paragraffau (2)(a)(i) i (iv).

(4) Rhaid bod y dystiolaeth yn cael ei rhoi gan bersonau sy'n briodol gymwys i roi'r dystiolaeth.

(5) Caniateir i'r dystiolaeth gael ei rhoi ar lafar neu'n ysgrifenedig.

(**4**) 2005 p.9; o ran atwrneiaeth arhosol, gweler adran 9.
(**5**) *Gweler* adran 16 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p.9).
(**6**) *Gweler* adran 45G(5) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) i gael y diffiniad o "related party".

### Y cyfnod y caiff gorchymyn Rhan 2A ynglŷn â phersonau fod mewn grym

**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran gorchmynion Rhan 2A sy'n gosod cyfyngiad neu ofyniad o dan adran 45G(2)(a) a (b) ac (e) i (k) (pŵer i orchymyn mesurau iechyd ynglŷn â phersonau) o'r Ddeddf.

(2) Rhaid i'r cyfnod y caiff y cyfyngiad neu'r gofyniad a osodir gan neu o dan y gorchymyn fod mewn grym beidio â bod yn fwy na 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y gwnaed y gorchymyn.

(3) Rhaid i unrhyw gyfnod o estyniad i gyfyngiad neu ofyniad beidio â bod yn fwy na 28 o ddiwrnodau.

(4) Pan fo gorchymyn Rhan 2A yn cael ei amrywio i osod cyfyngiad neu ofyniad newydd, rhaid i'r cyfnod y caiff y cyfyngiad neu'r gofyniad newydd hwnnw fod mewn grym beidio â bod yn fwy na 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y cafodd y gorchymyn ei amrywio.

### Personau yr effeithir arnynt o ran gorchmynion Rhan 2A ynglŷn â phersonau a chyrff marw neu weddillion dynol

**6.**—(1) Mae'r personau canlynol yn bersonau yr effeithir arnynt (yn ychwanegol at y rheini a ragnodwyd yn adran 45M o'r Ddeddf) at ddibenion gorchmynion Rhan 2A.

(2) Yn achos gorchymyn Rhan 2A o dan adran 45G o'r Ddeddf ynglŷn â pherson (P), y sawl sy'n penderfynu dros P (os oes rhywun).

(3) Yn achos gorchymyn Rhan 2A o dan adran 45H(2) o'r Ddeddf o ran corff marw neu weddillion dynol, câr agosaf yr ymadawedig.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "câr agosaf" a'r "sawl sy'n penderfynu dros P" yr ystyr a roddir iddynt yn rheoliad 3.

### Pŵer yn ôl disgresiwn i awdurdodau lleol godi tâl mewn cysylltiad â gorchmynion Rhan 2A o ran pethau a mangreoedd

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol wedi tynnu costau wrth wneud mesurau yn unol â gorchymyn Rhan 2A o dan adran 45H (mesurau iechyd o ran pethau) neu 45I (mesurau iechyd o ran mangreoedd) o'r Ddeddf.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), caiff yr awdurdod lleol godi tâl ar y canlynol—

(a) y perchennog neu'r person sydd â gwarchodaeth neu reolaeth ar y peth sydd yn destun gorchymyn o dan adran 45H o'r Ddeddf; neu

(b) perchennog neu feddiannydd y fangre sydd yn destun gorchymyn o dan adran 45I o'r Ddeddf.

(3) Swm y tâl a godir—

(a) rhaid iddo beidio â bod yn fwy na'r costau gwirioneddol (gan gynnwys costau staff) a dynnwyd gan yr awdurdod lleol wrth wneud mesurau o ran y peth neu'r fangre yn unol â'r gorchymyn; a

(b) rhaid iddo fod yn rhesymol yn yr amgylchiadau.

(4) Ni chaiff awdurdod lleol godi tâl mewn cysylltiad â gorchmynion o dan adran 45H o'r Ddeddf sy'n ymwneud â chorff marw neu weddillion dynol.

**Dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth o ran gorchmynion Rhan 2A ynglŷn â phersonau**

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol wedi gwneud cais Rhan 2A a bod ynad heddwch wedi gwneud gorchymyn Rhan 2A o dan adran 45G (mesurau iechyd o ran personau) ynglŷn â'r cais hwnnw.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y person sydd yn destun y gorchymyn (P) yn deall—

(a) effaith y gorchymyn, y rheswm dros ei wneud, o dan ba bŵer y cafodd ei wneud a hawl P i wneud cais am amrywiad neu ddirymiad o'r gorchymyn; a

(b) y gwasanaethau cymorth perthnasol sydd ar gael i P (a sut i gael mynediad atynt).

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol gymryd y camau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r gorchymyn gael ei wneud.

(4) Pan fo P o dan 18 oed, y ddyletswydd o dan baragraff (2) yw sicrhau bod person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros P yn deall y materion a osodir yn is-baragraffau (a) a (b) o'r paragraff hwnnw.

**Dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi sylw i faterion lles yn dilyn gorchymyn Rhan 2A ynglŷn â phersonau**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person (P)—

(a) yn cael ei gadw'n gaeth mewn ysbyty neu mewn sefydliad addas arall yn unol â gorchymyn Rhan 2A o dan adran 45G(2)(c) (mesurau iechyd o ran personau); neu

(b) yn cael ei ynysu neu dan gwarantîn yn unol â gorchymyn Rhan 2A o dan adran 45G(2)(d) (mesurau iechyd o ran personau).

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol a wnaeth y cais am y gorchymyn Rhan 2A roi sylw i effaith y gorchymyn ar les P ac ar ddibynyddion P, os oes rhai, tra pery'r gorchymyn.

**Dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi adroddiad am geisiadau Rhan 2A i Weinidogion Cymru**

**10.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru bob tro y bydd yn gwneud cais Rhan 2A.

(2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys—

(a) enw'r awdurdod lleol;

(b) manylion cyswllt swyddog yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr adroddiad;

(c) copi o'r cais Rhan 2A (gan dynnu oddi yno'r wybodaeth a fyddai'n galluogi gwybod pwy yw'r person sy'n destun y cais);

(ch) os gwnaed gorchymyn, copi o'r gorchymyn hwnnw (gan dynnu oddi yno'r wybodaeth a fyddai'n galluogi gwybod pwy yw'r person sy'n destun y gorchymyn); a

(d) os na wnaed gorchymyn Rhan 2A, y rheswm dros beidio â'i wneud.

(3) Rhaid darparu'r adroddiad cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r cais gael ei benderfynu a dim hwyrach na 10 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod y penderfynir y cais(**7**).

(4) Yn y rheoliad hwn, "penderfynir y cais" naill ai pan wneir gorchymyn yn unol â'r cais neu pan wrthodir y cais neu pan dynnir y cais yn ôl.

(**7**) Caiff Rheoliadau o dan adran 60A o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ddarparu i adroddiadau gael eu cyflwyno neu eu rhoi drwy gyfathrebu electronig.

**Dyletswydd ar awdurdodau lleol i roi adroddiad ar amrywiadau neu ddirymiadau o orchmynion Rhan 2A i Weinidogion Cymru**

**11.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol ddarparu adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru bob tro y caiff gorchymyn Rhan 2A a wnaed yn unol â chais Rhan 2A ac a wnaed ganddo ei amrywio neu ei ddirymu.

(2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys—

(a) enw'r awdurdod lleol;

(b) manylion cyswllt swyddog yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr adroddiad;

(c) copi o'r gorchymyn sy'n amrywio neu'n dirymu'r gorchymyn Rhan 2A (gan dynnu oddi yno'r wybodaeth a fyddai'n galluogi gwybod pwy yw'r person sy'n destun y gorchymyn); ac

(ch) copi o'r gorchymyn gwreiddiol (gan dynnu oddi yno'r wybodaeth a fyddai'n galluogi gwybod pwy yw'r person sy'n destun y gorchymyn).

(3) Rhaid i'r adroddiad ddarparu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r gorchymyn Rhan 2A gael ei amrywio neu ei ddirymu a dim hwyrach na 10 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod pan fo'r awdurdod lleol yn ymwybodol bod y gorchymyn Rhan 2A wedi cael ei amrywio neu ei ddirymu.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Mehefin 2010

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru ac yn gwneud darpariaeth o ran gorchmynion y gwnaed cais amdanynt ac a gafodd eu gwneud o dan Ran 2A o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Rheoli Clefydau) 1984 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 3 yn nodi i bwy y mae'n rhaid i awdurdod lleol roi hysbysiad o gais am orchymyn Rhan 2A.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r dystiolaeth y mae'n rhaid ei bod ar gael i ynad heddwch cyn y gall yr ynad gael ei fodloni bod y meini prawf dros wneud gorchymyn o dan adran 45G o'r Ddeddf wedi'u diwallu.

Mae rheoliad 5 yn nodi'r cyfnod hiraf y caiff gorchmynion Rhan 2 a bennir (ac unrhyw estyniadau i'r gorchmynion hynny) barhau mewn grym.

Mae rheoliad 6 yn darparu bod personau penodol yn "personau yr effeithir arnynt" at ddibenion gorchmynion Rhan 2A.

Mae rheoliad 7 yn galluogi awdurdod lleol i osod ffioedd er mwyn adennill costau'r camau a gymerir gan yr awdurdod lleol yn unol â gorchymyn Rhan 2A os yw'r gorchymyn hwnnw mewn perthynas â "pethau" (fel y'u diffinnir gan y Ddeddf) a mangreoedd. Ni cheir codi ffioedd mewn cysylltiad â gorchmynion o ran cyrff marw neu weddillion dynol.

Mae rheoliadau 8 i 11 yn gosod rhwymedigaethau amrywiol ar awdurdodau lleol o ran ceisiadau a gorchmynion Rhan 2A. Mae rheoliad 8 yn gorfodi'r awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth benodol i'r person sy'n destun y gorchymyn. Mae rheoliad 9 yn gorfodi'r awdurdod lleol i roi sylw i effaith y gorchymyn ar les y person sy'n destun y gorchymyn ac i unrhyw ddibynyddion a all fod gan y person hwnnw os yw gorchymyn ar gyfer cadw'n gaeth, ynysu neu gwarantîn. Mae rheoliadau 10 ac 11 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi adroddiad o geisiadau, gorchmynion ac amrywiadau neu ddirymiadau o orchmynion i Weinidogion Cymru at ddibenion monitro.

Cafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei baratoi o ran y costau a'r manteision o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.